



Canllaw i Gyfraniadau Grŵp Cleifion/Gofalwyr

1. Rôl cleifion ym mhroses arfarnu Technoleg Iechyd Cymru

Mae Technoleg Iechyd Cymru (HTW) wedi ymrwmo i gynnwys cleifion, gofalwyr a'r cyhoedd yn ystyrion yn ei brosesau, yn unol â Safonau Cenedlaethol y DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd mewn Ymchwil¹:

- Cyfleoedd cynhwysol
- Gweithio gyda'n gilydd
- Cefnogi a dysgu
- Cyfathrebu
- Effaith
- Llywodraethu.

Bydd HTW yn cynnwys y Safonau drwy gydol ei waith, oherwydd ein bod ni'n cydnabod bod gan gleifion a gofalwyr wybodaeth unigryw am dechnolegau iechyd na ellir dod o hyd iddynt mewn astudiaethau clinigol a gyhoeddir. Gallant ddweud wrthym am:

- y profiad o fyw gyda'r cyflwr meddygol sy'n cael ei asesu
- y profiadau o driniaethau presennol a'r llwybr gofal yng Nghymru - y da a'r drwg
- y profiadau ac/neu ddisgwyliadau o'r dechnoleg iechyd newydd sy'n cael ei harfarnu.

Gallai'r wybodaeth hon ddod gan y rheiny sy'n cael profion am y cyflwr meddygol sy'n cael ei astudio, neu gan rywun sy'n dioddef o'r cyflwr neu sydd wedi gwella ohono, neu gan eu gofalwyr.

O ganlyniad, mae HTW yn treialu ffyrdd amrywiol o gynnwys cleifion, ac yn dysgu o arferion gorau mewn sefydliadau arfarnu technoleg iechyd eraill ar draws y byd, a bydd yn gwerthuso'r rhain yn unol â fframwaith gwerthuso ffurfiol.

Mae'r canllaw hwn yn darparu gwybodaeth i alluogi grwpiau cleifion i gymryd rhan effeithiol ym mhrosesau arfarnu HTW, drwy ddarparu cyflwyniad strwythuredig.

Wrth sôn am grwpiau cleifion, rydym yn golygu unrhyw grŵp o gleifion neu eu gofalwyr - gallai fod yn sefydliad cleifion sydd wedi'i gofrestru fel elusen, yn grŵp llai ffurfiol o gleifion/gofalwyr, yn grŵp cyfryngau cymdeithasol neu'n gasgliad arall o gleifion sydd â'r un diddordeb.

Mae'r ffurflen gyfraniadau yn gofyn cwestiynau sy'n berthnasol i archwilio profiadau a safbwyntiau cleifion/gofalwyr amrywiol. Ni fwriedir iddi gael ei chwblhau gan glaf unigol. Os ydych chi'n glaf unigol ac os hoffech gyfrannu, cysylltwch â Swyddog Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd HTW ar 029 2046 8947.

Drwy ddysgu gan gyrrff arfarnu eraill yn y DU ac yn rhyngwladol, mae'r canllaw hwn yn cynnig awgrymiadau ynghylch beth i'w gynnwys yn eich cyfraniad, i gyhoeddi profiadau a safbwyntiau

¹ NIHR. UK Standards for Public Involvement in Research. National Institute for Health Research. Ar gael yn: <https://sites.google.com/nihr.ac.uk/pi-standards/standards> [Mynediad - 18 Gorffennaf 2019].

cleifion/gofalwyr mewn ffordd sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar Bwyllgorau sy'n ystyried y dechnoleg iechyd sy'n cael ei harfarnu.

Rydym yn datblygu ein prosesau ac felly, byddwn yn rhoi adborth i chi ar eich cyfraniad ac efallai y byddwn yn gofyn am eich barnau ar ein proses.

I ddarganfod mwy am HTW, ein prosesau ac i weld esiamplau o'n harfarniadau, ewch i'n gwefan <http://www.healthtechnology.wales/about/> neu ffoniwch ni ar 029 2046 8947.

2. Cynllunio cyfraniad

Mae cwblhau Ffurflen Grŵp Cleifion/Gofalwyr yn cymryd amser ac ymdrech, ond mae'n gyfle i chi ddarparu gwybodaeth werthfawr i HTW a allai gasglu gwybodaeth ar gyfer eu Canllaw Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Gallwch egluro sut brofiad yw hi i gleifion² fyw gyda chyflwr meddygol penodol, a defnyddio technolegau iechyd yng Nghymru.

Bydd cynllunio eich cyfraniad yn eich helpu i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i lenwi'r ffurflen. Dylech benderfynu p'un a oes angen i chi gasglu gwybodaeth newydd gan gleifion a gofalwyr, neu p'un a oes gennych chi'r wybodaeth angenrheidiol yn eich grŵp cleifion yn barod. Efallai y byddwch eisiau ymgynghori â'ch aelodau a chleifion a grwpiau cleifion eraill am yr wybodaeth rydych chi'n bwriadu ei chyflwyno, felly bydd angen i chi gynnwys hyn yn eich cynllun.

Mae'n bwysig cysylltu â HTW i sicrhau nad ydych yn methu'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno. Bydd hyn yn sicrhau y gellir rhannu eich cyfraniad gyda'r Pwyllgorau, a llywio eu trafodaethau am y dystiolaeth ar effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd.

Defnyddiwch iaith glir lle bo modd, gan esbonio acronymau a thermau eraill nad ydynt yn llyg mewn iaith syml.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y dechnoleg iechyd neu ein harfarniad, cysylltwch â HTW drwy anfon e-bost at healthtechnology.wales@wales.nhs.uk neu drwy ein ffonio ni ar 029 2046 8947.

3. Pa wybodaeth y dylech chi ei chynnwys yn eich cyfraniad?

Cyfeiriwch at Ffurflen y Grŵp Cleifion/Gofalwyr wrth ddarllen y canllaw hwn.

Rydym eisiau deall y cyflwr meddygol a'i ddiagnosis neu ei driniaeth o ran effeithiau ar fywydau beunyddiol cleifion a gofalwyr yn well. Mae hyn yn ein helpu i ddehongli'r ymchwil sydd wedi cael ei gyhoeddi, sy'n aml o astudiaethau rhyngwladol nad ydynt efallai'n gwbl berthnasol i Gymru. Mae hyn yn ein helpu ni hefyd i benderfynu ar wir fanteision neu anfanteision technoleg iechyd.

Mae Tabl 1 yn rhoi awgrymiadau manwl ar y math o wybodaeth sydd fwyaf defnyddiol i Bwyllgorau HTW ym mhob adran o Ffurflen y Grŵp Cleifion/Gofalwyr.

Wrth ysgrifennu eich cyfraniad, ystyriwch yr awgrymiadau ym Mocs 1.

² bydd "claf" yn cael ei ddefnyddio fel term generig sy'n cyfeirio at unrhyw un sydd â phrofiad uniongyrchol o fyw gyda'r cyflwr sy'n cael ei astudio, neu a allai fod yn gymwys i dderbyn y dechnoleg (e.e. aelodau penodol o'r cyhoedd a allai gael eu gwahodd i gael eu brechu neu i gael ymyriad diagnostig).

Bocs 1. Awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu eich cyfraniad

Pethau i'w gwneud

- Bod mor glir a chryno â phosibl, a defnyddio iaith glir lle bo modd
- Cynnwys yr hyn sy'n bwysig yn eich barn chi
- Gadael adran yn wag os nad oes gennych chi wybodaeth berthnasol
- Adrodd ar gynifer o unigolion sy'n byw gyda'r cyflwr hwn â phosibl
- Cyflwyno safbwyntiau amrywiol cleifion a gofalwyr, lle maent yn bodoli
- Cynnwys dyfyniadau unigol am effaith y dechnoleg newydd ar fywyd bob dydd
- Ceisio bod yn gytbwys
- Gwneud cyfraniad. Hyd yn oed os na allwch chi ddod o hyd i gleifion sydd â phrofiad o'r dechnoleg iechyd newydd, mae eich cyfraniadau eraill yn bwysig

Pethau i beidio â'u gwneud

- Anfon astudiaethau atom ar effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd; mae ein hymchwilyr yn dod o hyd i'r rheiny yn defnyddio prosesau trylwyr
- Ailadrodd yr wybodaeth rydych chi wedi'i hysgrifennu'n barod mewn adran arall
- Teimlo wedi'ch cyfyngu gan yr esiamplau yn y canllaw hwn
- Teimlo bod angen i chi gael mewnbwn gan glinigwyr neu ddiwydiant - rydyn ni'n gwneud hynny
- Anfon astudiaethau atom ar effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd - mae ein hymchwilyr yn dod o hyd i'r rheiny yn defnyddio prosesau trwyadl
- Defnyddio iaith emosiynol neu ymosodol

Mae cyfraniadau Grŵp Cleifion/Gofalwyr sy'n cael yr effaith fwyaf yn gytbwys, ac yn cydnabod unrhyw ddiffygion gyda'r dechnoleg iechyd newydd, yn ogystal â'r manteision.

Tabl 1. Gwybodaeth y gallech ddymuno ei chynnwys ym mhob adran

Adran	Math o wybodaeth
1. Disgrifiwch unrhyw ffynonellau a ddefnyddiwyd gennych i gasglu gwybodaeth ar gyfer y cyfraniad hwn.	<p>Nodwch ffynhonnell yr wybodaeth, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none">• arolygon• holiaduron ansawdd bywyd• grwpiau ffocws• gweithdai• fforymau ar-lein• trafodaethau un i un• cronfeydd data grwpiau cleifion, fel ymholiadau drwy ffonio llinell gymorth• ymchwil cyhoeddiedig neu heb ei gyhoeddi am brofiadau neu ddewisiadau cleifion• ydy'r wybodaeth gan gleifion yng Nghymru neu gan gleifion o rywle arall - oes unrhyw gleifion wedi defnyddio'r dechnoleg iechyd (nodwch). <p>Dywedwch yn gryno wrthym am eich ffynonellau - sut ydych chi wedi casglu gwybodaeth a nifer y cleifion dan sylw</p>

	<p>A oes grwpiau o gleifion nad oeddech yn gallu cysylltu â nhw? A wnaethoch chi ymgysylltu â chleifion oedd â phrofiad o ddefnyddio'r dechnoleg iechyd sy'n cael ei hasesu?</p>
--	--

Adran	Math o wybodaeth
<p>2. Beth yw'r cyflwr iechyd, a sut mae'n effeithio ar fywydau cleifion a'u gofalwyr o ddydd i ddydd?</p>	<p>Cleifion</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mathau o gleifion y mae'r cyflwr yn effeithio fwyaf arnynt (er enghraifft dynion, menywod, plant, a grwpiau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig). • Oedran cyfartalog mae'r cyflwr yn dechrau, a'r eithafion (e.e. 10% yn is na 18, 5% yn uwch na 90) • Ydy'r cyflwr yn datblygu yn yr un ffordd ym mhob claf? • Y symptomau mwyaf heriol (er enghraifft poen, blinder, anhawster anadlu, poen yn y cymalau, dolur rhydd, cyfog, ac ati) <p>ac</p> <p>eu goblygiadau (methu canolbwyntio ac felly methu gweithio, colli symudedd, dim yn gallu gyrru, methu gwisgo eich hun, colli hyder i fynd allan, methu siopa, mynd i'r ysgol, allgau cymdeithasol).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y cymorth sydd ei angen ar gyfer bywyd bob dydd, ac effeithiau ar fywyd teuluol. • Materion emosiynol fel ofn, pryder, ansicrwydd, stigma, embaras. <p>Gofalwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> • Heriau sy'n wynebu teulu a ffrindiau sy'n cefnogi'r claf, fel tarfu, i'r angen arferol i leihau cyflogaeth. • Pwysau ar fywyd bob dydd gofalwyr fel materion emosiynol/seicolegol, heriau perthynas, trefnu gofal, blinder, straen, pryder, iselder, heriau corfforol, materion ariannol.
<p>3. Sut mae'r cyflwr iechyd yn cael ei ddiagnosio ac/neu ei drin ar hyn o bryd?</p>	<p>Cleifion</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y prif ymyriadau iechyd sydd yn cael eu defnyddio gan gleifion ar hyn o bryd ar gyfer y cyflwr hwn, neu os nad oes rhai, nodwch hynny. • I ba raddau y mae ymyriadau iechyd sydd ar gael ar hyn o bryd yn rheoli neu'n lleihau'r agweddau mwyaf anodd/pryderus o'r cyflwr

	<ul style="list-style-type: none"> • Materion nad yw ymyriadau presennol yn mynd i'r afael â nhw (e.e. trin symptomau ond dim yn addasu cyflwr iechyd) • Baich yr ymyriadau iechyd sydd ar gael ar fywyd bob dydd ar hyn o bryd (e.e. anhawster yn defnyddio'r ymyriadau, heriau o ran gwella ar ôl triniaeth, yr angen am adsefydlu, ymweliadau clinig arbennig ar gyfer triniaethau ac archwiliadau) • Sgîl-ffeithiau sy'n gysylltiedig ag ymyriadau iechyd sydd ar gael ar hyn o bryd sy'n peri gofid neu sy'n anodd eu goddef • Goblygiadau ariannol, fel costau prynu'r ymyriad <p>Gofalwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodwch a yw gweinyddu ymyriadau presennol yn gofyn am gymorth gan ofalwyr, neu'n effeithio ar fywyd teuluol
--	--

Adran	Math o wybodaeth
<p>4. Beth y gall cleifion a gofalwyr ei ddisgwyl o'r dechnoleg iechyd?</p>	<p>Agweddau ar anghenion neu ddisgwyliadau cleifion y gobeithir y bydd y dechnoleg iechyd newydd yn mynd i'r afael â nhw (gan esbonio materion penodol ar gyfer camau penodol o'r clefyd). Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Os caiff ei ddefnyddio gan glaf, gweithredu dyfais yn haws. • Triniaeth fwy cyfleus, llai ymledol. • Pa ganlyniadau sy'n bwysig i gleifion, fel bywyd hirach, amser hirach i'r cam nesaf o'r clefyd, llai o ddibyniaeth ar ocsigen, mwy o symudedd, y gallu i ofalu amdanoch chi eich hun, y gallu i ddychwelyd i'r gwaith, lleihau poen, lleihau sgîl-ffeithiau sy'n anodd eu rheoli. • Egluro beth mae lefel y gwelliant yn yr astudiaethau clinigol yn ei olygu i gleifion yn eu bywydau bob dydd. • Ydy cleifion yn deall y risgiau gyda'r dechnoleg iechyd newydd, ac ydy hynny'n rhywbeth maen nhw'n barod i'w dderbyn er budd posibl? • Grwpiau o gleifion a allai elwa'n arbennig neu a allai elwa llai o'r dechnoleg iechyd newydd nag eraill (er enghraifft y rheiny sydd ddim yn gallu cael llawdriniaeth, neu'r rheiny sydd â chlefydau eraill, y rheiny mewn ardaloedd gwledig na allant gael mynediad at wasanaethau). <p>Disgwyliadau gofalwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llai o ddibyniaeth a mwy o gysur i gleifion. • Gwelliannau posibl mewn ansawdd bywyd.

<p>5. Pa wahaniaeth wnaeth y dechnoleg iechyd i fywydau cleifion sydd wedi ei gael?</p>	<p>(gadewch yn wag os na wnaethoch chi gysylltu ag unrhyw un sydd wedi cael profiad o'r dechnoleg iechyd).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhesymau pam mae cleifion yn hoffi neu ddim yn hoffi'r dechnoleg iechyd (er enghraifft, llai ymledol na'r ymyriadau presennol, yn gallu ei defnyddio gartref a rheoli eu cyflwr eu hunain, wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i ansawdd bywyd). • Hawdd ei defnyddio. • Y graddau mae'r dechnoleg iechyd yn gwella'r agweddau mwyaf anodd ar y clefyd (Er enghraifft, mae poen yn cael ei leihau'n fawr, sy'n caniatáu i'r corff weithio bron yn normal a rhyngweithio â'r teulu, a dychwelyd i'r gwaith, gallu cysgu yn y nos sy'n arwain at well cyflwr meddyliol yn ystod y dydd, dim allan o wynt rhagor ac yn gallu cerdded i siopau, gallu gwisgo eich hun). • Cyfyngiadau'r dechnoleg iechyd. • Unrhyw agweddau ar y dechnoleg iechyd yr hoffai cleifion eu newid.
<p>Adran</p>	<p>Math o wybodaeth</p>
<p>6. Gwybodaeth ychwanegol rydych chi'n credu y byddai'n ddefnyddiol i HTW ei hystyried.</p>	<p>Mae'r adran hon yn opsiynol, a gellir ei defnyddio ar gyfer unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'ch cyflwyniad.</p>
<p>7. Crynhowch brif bwyntiau eich cyflwyniad mewn hyd at bump datganiad.</p> <p><i>Pan fyddwn yn cyflwyno eich cyfraniad, byddwn yn cyflwyno'r rhain yn gyntaf.</i></p>	<p>Mae'n bwysig eich bod chi'n nodi negeseuon allweddol eich cyfraniad yma yn gryno. Gallai'r rhain gynnwys un frawddeg am bob un o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Difrifoldeb ac effaith y cyflwr hwn ar fywyd bob dydd. - Cyfyngiadau ymyriadau iechyd presennol. - Mantais fawr y dechnoleg iechyd newydd hon. - Anfanteision y dechnoleg iechyd newydd. - Grwpiau a fyddai'n elwa'n arbennig o'r dechnoleg hon.
<p>8. Rhowch fanylion i ni am unrhyw un y tu allan i'ch grŵp a oedd â rôl yn y gwaith o baratoi eich cyfraniad.</p>	<p>Nodwch rôl y person a'r sefydliad. Er enghraifft</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymchwilydd economeg iechyd ym mhrifysgol XX wedi arwain astudiaeth • Arweinydd masnachol yn y DU wedi rhannu canlyniadau arolwg sy'n cwmpasu Cymru • Ymgynghorydd o YY wedi arwain y gwaith o baratoi cyflwyniad • Meddyg arbenigol yn ysbyty ZZ wedi adolygu'r cyflwyniad.

9. Ydych chi'n rhoi caniatâd i'ch grŵp gael ei enwi yn adroddiadau HTW	Mae'n ddefnyddiol ac yn dryloyw cydnabod y grŵp (iau) cleifion/gofalwyr sydd wedi cyflwyno gwybodaeth ar gyfer arfarniad. Fodd bynnag, ni fydd diffyg caniatâd i enwi'r grŵp mewn adroddiadau HTW yn atal y cyfraniad rhag cael ei ddefnyddio.
10. Ydych chi wedi cyflwyno'r ffurflen Datganiad o Ddiddordeb?	Mae'n bwysig tynnu sylw at ddatganiadau o ddiddordeb er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw. Yn aml, mae gan grwpiau cleifion/gofalwyr fuddiannau sydd angen eu datgan, ond ni fyddai hynny'n atal y cyfraniad rhag cael ei ystyried.

4. Sut i gasglu gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i'ch cyfraniad

Efallai y bydd gennych ddigon o wybodaeth i lenwi Ffurflen y Grŵp Cleifion/Gofalwyr. Nid yw'n ddisgwyliad nac yn ofynnol i'r data fod yn benodol i'r dechnoleg, yn enwedig gan y bydd amserlenni i ddarparu gwybodaeth yn gymharol fyr. Os ydych chi eisiau casglu gwybodaeth ychwanegol, bydd y math o wybodaeth rydych chi'n ei chasglu yn dibynnu ar y cwestiynau yr hoffech eu hateb. Gellir grwpio gwybodaeth yn ddau gategori: meintiol (gwybodaeth rifiadol) ac ansoddol (gwybodaeth ddisgrifiadol).

Bydd y ffordd rydych chi'n cyflwyno gwybodaeth yn dibynnu ar y mathau o gwestiynau a ofynnwyd gennych. Cofiwch fod pwyllgor HTW yn chwilio am drosolwg o brofiadau neu themâu. Mae'r ffordd rydych chi'n cyflwyno gwybodaeth feintiol (cwestiynau penagored mewn arolygon) yn wahanol i'r ffordd y dylech gyflwyno gwybodaeth ansoddol (cwestiynau disgrifiadol, penagored mewn arolygon, a chyfweliadau).

Mae'n bwysig bod mor glir, cryno a theg â phosibl wrth gyflwyno'ch gwybodaeth, fel bod eich cyfraniad yn cael yr effaith fwyaf posibl.

Mae'r isadrannau canlynol yn crynhoi materion allweddol ynghylch casglu a chyflwyno gwybodaeth feintiol ac ansoddol. Os ydych chi eisiau cynnal arolygon diffiniol neu ymchwil ansoddol, rydym yn argymhell eich bod chi'n cydweithio gydag academyddion sydd ag arbenigedd perthnasol yn y meysydd hyn. Pwrpas y canllaw hwn yw eich helpu i gynnal astudiaeth syml i ddarparu cyfraniadau allweddol.

4.1. Gwybodaeth Feintiol

Mae gwybodaeth feintiol naill ai'n cael ei chyfrif neu ei mesur, fel:

- Oedran pan yn cael eich diagnosio
- Nifer y blynyddoedd yn byw gyda'r cyflwr
- Faint o amser ydych chi'n ei dreulio yn cyrraedd eich apwyntiadau?
- Faint o amser a gymerodd i chi gael y diagnosis cywir?
- Sawl gwaith wnaethoch chi addasu eich dos o driniaeth o ganlyniad i'r pecyn monitro cartref yn ystod yr wythnos ddiwethaf?

Un ffordd gyffredin o gasglu'r math hwn o wybodaeth yw drwy ddefnyddio cwestiynau caeedig o fewn arolygon, lle mae atebion yn cael eu dewis o set o ymatebion sydd wedi cael eu penderfynu ymlaen llaw, er enghraifft defnyddio sgoriau ar raddfa wedi'i rhifo, neu ddefnyddio ymatebion dewis lluosog. Yna, gallwch adrodd yr ymateb cyfartalog neu sawl gwaith mae ymateb penodol yn cael ei ddewis.

Er mwyn crynhoi gwybodaeth feintiol (data), mae'n ddefnyddiol cyfuno ymatebion fel cyfartaleddau, amleddau neu gyfrifiadau (nifer y bobl), neu gyfrannau (canrannau). Mae'n well cadw'r ystadegau'n syml.

EsiampI

Roedd y 22 o gleifion a ymatebodd i'r arolwg yn nodi mai 'heintiau' oedd y pwysicaf, gyda 72% yn ei sgorio fel 10, agwedd 'bwysig iawn' ar reoli cancer. Cafodd 'heintiau' eu dilyn gan 'broblemau gyda'r arennau', 'poen', 'symudedd', 'niwropathi', 'diffyg anadl', a 'blinder'. Roedd mwy na 50% o'r ymatebwyr yn graddio'r agweddau hyn fel 10, yn 'bwysig iawn' i'w rheoli. Ym mhob achos, roedd y cyfartaledd sgorio yn fwy nag 8, oedd yn golygu bod yr holl symptomau wedi'u rhestru yn cael eu hystyried yn bwysig.

4.2. Gwybodaeth ansoddol

Mae'n bwysig casglu meddyliau, barnau, storïau a theimladau cleifion a gofalwyr hefyd. Mae'r mewnbwn hwn yn cael ei ddisgrifio fel gwybodaeth ansoddol, ac yn ateb cwestiynau, fel:

- Sut mae sgîl-effaith X yn effeithio ar eich bywyd?
- Sut beth yw cael cyflwr Y?
- Beth hoffech chi allu ei wneud y flwyddyn nesaf, nad ydych chi'n gallu ei wneud nawr?
- Ydy pob claf yn gallu cael mynediad i'r dechnoleg iechyd yn yr un ffordd?

Mae sawl ffordd o gasglu gwybodaeth ansoddol. Mae rhai yn syml ac yn gyflym iawn, er enghraifft postio cwestiwn ar wefan rhwydweithio cymdeithasol, fel Twitter neu Facebook, neu fforymau trafod ar-lein. Gallwch ddefnyddio trafodaethau grŵp, cyfweiliadau neu gwestiynau penagored mewn arolygon hefyd. Mae'r rhain yn caniatáu i gyfranogwyr egluro eu profiadau yn eu ffordd eu hunain. Mae holiaduron electronig yn gallu bod yn ffordd hawdd a chyfleus o gasglu gwybodaeth allweddol hefyd.

Ffordd dda o gyflwyno gwybodaeth ansoddol (ddisgrifiadol) yw nodi'r themâu cyffredin sy'n dod i'r amlwg ymhlith cyfranogwyr ac unrhyw wahaniaethau mawr o ran barn. Yna, dylech gynnwys dyfyniadau gan gyfranogwyr i ddangos y gwahanol safbwyntiau. Os ydych chi'n dechrau drwy ddewis dyfyniadau heb chwilio am themâu cyffredin, efallai na fyddwch yn sylweddoli bod themâu penodol wedi cael eu trafod gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr gyda'i gilydd.

Dylai'r canfyddiadau fod yn llais y cyfranogwr, er enghraifft yr hyn mae cyfranogwyr wedi'u mynegi, adrodd, dweud neu ddisgrifio. Dylech ei gwneud yn glir bod y canlyniad hwn wedi'i gymryd yn uniongyrchol o brofiadau'r cyfranogwr, yn hytrach na barn eich grŵp cleifion.

Esiampyl

"Mae'n ofnadwy, allwch chi ddim codi a cherdded hyd yn oed." (P2)

"Cerddais drwy'r drws heddiw i ddod lawr yma, dyna'r mwyaf dwi wedi cerdded mewn tua blwyddyn." (P5)

"Dyna'r mwyaf dwi wedi bod yn cerdded ers amser maith hefyd." (P7)

Peidiwch ag enwi cleifion na gofalwyr yn ôl eu henwau llawn. Yn hytrach, defnyddiwch flaenlythrennau neu enwau cyntaf yn unig, a chofiwch gymryd rhagofalon arbennig i gynnal cyfrinachedd yr wybodaeth a roddir i chi. Darllenwch y canllawiau hyn sy'n rhoi manylion ar ystyriaethau moesegol wrth gasglu profiadau cleifion - canllaw [hir](#) a [byr](#).

5. A oes rhaid i'r wybodaeth ddod gan gleifion a gofalwyr yng Nghymru?

Mae'n well casglu gwybodaeth gan gleifion yng Nghymru a allai elwa o dderbyn y dechnoleg iechyd newydd. Mae eu profiad o'r GIG yng Nghymru yn darparu gwybodaeth werthfawr. Rydym yn sylweddoli, ar gyfer rhai technolegau iechyd, fel y rheiny sydd yn cael eu defnyddio i drin cyflyrau mwy prin, nad yw hyn bob amser yn bosibl. Os nad ydych chi'n gallu casglu gwybodaeth gan y boblogaeth leol, mae'n iawn cynnwys gwybodaeth gan gronfa ehangach o gleifion a gofalwyr o'r tu allan i Gymru, fel Lloegr, lle mae'r system iechyd yn debyg i'n system ni.

6. Adnoddau defnyddiol

Mae Health Technology Assessment International (HTAi) yn darparu amrywiaeth o [adnoddau](#) addysgol a dysgu, ar gyfer helpu grwpiau cleifion i gasglu profiadau cleifion a gofalwyr.

Hygyrchedd

Gallwch ddarllen a lawrlwytho'r ddogfen hon o'n gwefan. Os hoffech i ni ystyried cynhyrchu'r ddogfen hon neu Ffurflen y Grŵp Cleifion/Gofalwyr mewn fformat arall, cysylltwch â HTW drwy anfon e-bost at healthtechnology.wales@wales.nhs.uk neu drwy ein ffonio ni ar 029 2046 8947.

Cydnabyddiaethau

Mae'r wybodaeth yn y canllaw hwn wedi'i haddasu o ganllaw a gynhyrchwyd gan Grŵp Diddordeb HTAi ar gyfer Cynnwys Cleifion a Dinasyddion mewn HTA, Scottish Medicines Consortium a Scottish Health Technologies Group.

Rydym yn ddiolchgar i Grŵp Sefydlog Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd HTW am eu sylwadau ar fersiynau drafft.

© Health Technology Wales 2019

Gellir copïo neu atgynhyrchu cynnwys y ddogfen hon i'w defnyddio o fewn GIG Cymru, neu at ddibenion ymchwil addysgol, personol neu anfasnachol yn unig. Mae'n rhaid i sefydliadau masnachol gael caniatâd ysgrifenedig gan Technoleg Iechyd Cymru cyn copïo neu atgynhyrchu unrhyw ran o'r ddogfen hon.

Swyddog Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd
Technoleg Iechyd Cymru (HTW)
Hwb Gwyddorau Bywyd
3 Sgwâr y Cynulliad
Caerdydd
CF10 4PL
Y Deyrnas Unedig

E-bost: healthtechnology@wales.nhs.uk
Rhif ffôn: 029 2046 8947